***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 652

## Gorchymyn Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe (Trebannws a Chlydach) 2002

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe (Trebannws a Chlydach) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Ebrill 2002, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau, ond at ddibenion pob achos sy'n arwain at etholiad neu'n ymwneud ag etholiad sydd i'w gynnal ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff ei wneud.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Abertawe" ("*Swansea*") yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe;

ystyr "Castell-nedd Port Talbot" ("*Neath Port Talbot*") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot;

ystyr "y map ffiniau" ("*the boundary map*") yw'r map a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a farciwyd "Map o Orchymyn Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe (Trebannws a Chlydach) 2002" a sydd wedi'i hadneuo yn unol a Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 fel y'u diwygiwyd (**1**).

### Newid Prif Ardaloedd ac Ardaloedd Cymunedau

**3.** Caiff y rhan honno o Gastell-nedd Port Talbot sydd yn ward Trebannws yng nghymuned Pontardawe ac a ddangosir â llinellau du ar y map ffiniau (sy'n cynnwys yr eiddo sy'n dwyn rhifau 162 i 172 Pontardawe Road) ei gwahanu oddi wrth y fwrdeistref sirol a'r gymuned honno a bydd yn ffurfio rhan o ward Clydach yn Abertawe.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*Rhodri Morgan*
Prif Weinidog

5 Mawrth 2002

(**1**) O.S. 1976/246 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 O.S. 1978/247.